Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel

Dyddiad: Dydd Mercher, 19 Medi 2018

Amser: 09.02 – 10.39

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5129

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Neil Hamilton AC Mike Hedges AC Jane Hutt AC Nick Ramsay AC David Rees AC Llyr Gruffydd AC
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Leanne Hatcher (Ail Glerc) Georgina Owen (Dirprwy Glerc) Joanne McCarthy (Ymchwilydd) Gareth David Thomas (Ymchwilydd) Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Agorodd y Clerc y cyfarfod a galwodd am enwebiadau i ethol cadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod hwn ac ar gyfer y cyfarfod ar 27 Medi 2018.

1.2 Enwebwyd Llyr Gruffydd gan David Rees, ac fe'i hetholwyd yn gadeirydd dros dro.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd dros dro yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.4 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC. Roedd Llyr Gruffydd yn bresennol ar ei ran.

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 PTN1 - Llythyr gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol - Grŵp Rhyng-Weinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol - 26 Gorffennaf 2018

2.2 PTN2 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid - Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2018-19 - 10 Awst 2018

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 27 Medi 2018

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

4 Paratoadau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru: Trafod yr adroddiad drafft

4.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd i gymeradwyo unrhyw newidiadau pellach drwy e-bost.

5 Trafod Offeryn Statudol Treth

5.1 Nododd y Pwyllgor yr offeryn statudol a gofynnwyd am ddiffiniad cyfreithiol o 'top-soil'.

6 Mentrau Senedd@

6.1 Nododd y Pwyllgor y mentrau Senedd@ arfaethedig.

7 Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio: Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunwyd i ystyried y fersiwn ddiwygiedig yn y cyfarfod nesaf.

8 Dull ar gyfer Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei ddull o graffu ar y gyllideb ddrafft a'r amserlen ar gyfer sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor yr hydref. Cytunodd y Pwyllgor i gynnal cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar asesiadau effaith yn y gyllideb.